


i olau dydd yn ddiweddar iawn, sef bil yn llaw'r prifathro am un tymor o addysg i fachgen ar ddechrau 1914.

Yn y rhifyn o'r *Tyst*, 1927, y cyfeiriwyd ato'n barod, roedd sôn am yr arferiad ar un adeg o dderbyn yn ddisgyblion, lawer o wrywod a fuont eisoes mewn gwaith, er enghraifft mewn siopau a phyllau glo. Y mae'n glir, felly, y byddai'r ysgol wedi gorfod cynnal dau gwrs gwahanol o addysg yn y cyfnod hwnnw, un ar gyfer plant yn dilyn y cwrs llawn o addysg ganolraddol, ac un arall i rai yn penderfynu diwyllio eu hunain yn ddiweddarach yn eu bywydau. Mae lluniau 1903 ac 1904 yn brawf clir o bresenoldeb y math hynaf o ddisgybl, a llun 1914 yn dangos fod cryn newid wedi digwydd gan fod y disgyblion, at ei gilydd, yn rhai llawer iau. A dyna pam y mae'r bil yn werthfawr.

Ei gyfanswm oedd £1. 14s. 7c.; pris am dymor o addysg i John Daniels, Glasfryn, Llanfihangel-ar-Arth. Gwyddys cyn i'r bil dddod i'r golwg ei fod ef, erbyn dechrau 1914, wedi gorfenn ei addysg mewn ysgol gynradd ac wedi cael y cyfle i fynd am gyfnod i'r ysgol ramadeg, yn ddyddiol o'i gartref ei hun, gyda'r amcan o ddysgu rhagor am rai pynciau, mathemateg yn arbennig. Fe ganfyddir ls 3c am focs o *mathematical instruments* yn y bil. Roedd pris yr addysg ar ei ben ei hun, £1 8s. 0c., mor isel - a hynny hyd yn oed wedi cymryd i ystyriaeth y gwahaniaeth mawr rhwng gwerth yr arian yn 1914 a'i werth yn gyfocs - fel na fedrai fod yn ddigon uchel i fod yn dâl am y cwrs addysg canolraddol llawn.

Roedd yr ychydig o hanes yr ysgol a oedd ar lafar cyn cychwyn o ddiffri ar ei olrhain yn awgrymu fod disgyblion gyda'r un cefndir â John Daniels wedi bod yn frith yno yn y blynyddoedd olaf ac y mae'r lluniau, ynghyd â'r bil, yn rhoi amcan clir tua pa bryd y dechreasant gael eu derbyn yn lle y rhai hŷn.




Ysgol Ramadeg Pencader 1903.



Ysgol Ramadeg Pencader 1914.

**Pencader Grammar School,
Pencader, S. Wales,**

March 20, 1914.
Mr. Daniel, Glasfryn, Llanfihangel ar-arth.


TO J. D. EVANS, 
HEAD MASTER.

Term ending	To One Term's Tuition			
April, 1914.	of Mast. J. D. Daniel.	1	8	0
"	Box of mathematical instruments		1	3
"	4 En. like 1/-		1	0
"				
"				
"				
"	Laundry			
"	Pens, Ink, Pencils, Paper, Exercise Books, &c.		2	4
"	Fire		2	0
A Term's Notice is required previous to the removal of Pupils, or a Term's Fee will be charged.				
Paid with thanks, £1 14s 7d				
April 2nd, 1914,				
J.D. Evans.				

Bil am addysg yn 1914.

Ymddeolodd J. D. Evans yn 1914 yn drigain oed a threfnwyd aduniad o dros 200 o gyn-ddisgyblion. Cyflwynwyd Anerchiad Goliwliedig iddo gan ei olynydd a phwrs yn llawn o aur gan Mrs. Talwyn Philips, gwraig i weinidog yn Y Bala, yr hynaf o'r hen ddisgyblion, un a hannai o bentref New Inn

(Parhad ar dudalen 19)



J. R. Saunders M.A.